# CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU
## Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol – Cylch Gorchwyl

### 1. Rhagarweiniad

1.1 Un o swyddogaethau CJC Canolbarth Cymru yw paratoi Cynllun Datblygu Strategol (SDP) (ac yn unol â hynny, mae Rhan 6 Deddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn berthnasol i CJC Canolbarth Cymru)

1.2 Mae cynhyrchu SDP yn ddyletswydd statudol a bydd angen ymrwymo adnoddau sylweddol dros gyfnod i'w ddiffinio'n unol â disgwyliadau darparu clir a restrir mewn 'Cytundeb Darparu' wedi'i gytuno gan y CJC a Llywodraeth Cymru.

1.3 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA) yn aelod o'r CJC ond gyda hawl i bleidleisio dim ond ar bwrpasau Cynllunio Datblygu Strategol.

1.4 Bydd y CJC yn penodi'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol i eistedd o dan y CJC fel yr Is-Bwyllgor sy'n gyfrifol am wneud yr argymhellion angenrheidiol i'r CJC mewn perthynas a pharatoi, mabwysiadu a gweithredu SDP Canolbarth Cymru.

1.5 Yr SDP fydd y Cynllun Datblygu rhanbarthol cyntaf erioed ar gyfer Canolbarth Cymru ac o dan yr hwn y bydd dal angen paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (LDP) a / neu 'fân gynlluniau LDP' ar lefel Awdurdod Cynllunio Lleol. Unwaith fydd yr SDP yn ei le, gwneir penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol ar ôl ystyried yr SDP, cynlluniau LDP mabwysiedig / mân gynlluniau LDP a Cymru'r Dyfodol, Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

1.6 Bydd ffocws yr SDP ar y materion, pynciau neu leoedd sy'n cael eu hystyried i fod yn allweddol i ddarparu materion ehangach na rhai lleol gan ymateb i'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn y rhanbarth. Bydd yn trafod materion cynllunio strategol a 'chreu lle' fel y prif ganolfannau twf economaidd, dyraniadau tai sylweddol (gan gynnwys aneddiadau newydd lle bo hynny'n briodol) ac ardaloedd i'w gwarchod.

### 2. Cyfansoddiad yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol

2.1 Bydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn cynnwys wyth aelod, tri o bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol a dau o'r BBNPA.

2.2 Rhaid ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Is-bwyllgor o blith Aelodau'r Awdurdodau Cyfansoddol yn flynyddol.

### 3. Argymhellion yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol

3.1 Bydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn gwneud argymhellion i'r CJC yn ymwneud â pharatoi a datblygu'r Cynllun Datblygu Strategol ac ar ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu yn y dyfodol. Yna gofynnir i'r CJC ystyried a chymeradwyo'r argymhellion. Os nad yw'r CJC yn cymeradwyo'r argymhellion, gall y CJC gyfeirio materion yn ôl at yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol ar gyfer eu hailystyried ac yna eu hailgyflwyno i'r CJC.

## 4. Cyfarfodydd

4.1 Rhaid i'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol gyfarfod pob chwarter o leiaf, neu ba mor aml bynnag ag y bydd yr Is-bwyllgor yn penderfynu o bryd i'w gilydd er mwyn cyflawni ei rôl.

4.2 Gall yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol wahodd trydydd partïon priodol i fynychu ac arsylwi ar gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol fel y gwêl yn briodol o bryd i'w gilydd.
Gall y trydydd partïon hyn gynnwys unigolion neu gynrychiolwyr o unrhyw sefydliadau a chwmnïau sector preifat a benderfynir gan yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol o bryd i'w gilydd.

4.3 Bydd gan unrhyw drydydd parti a wahoddir i fynychu ac arsylwi ar gyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol hawl i gymryd rhan yn y cyfarfod ond dim hawl i bleidleisio ar unrhyw benderfyniad. Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw drydydd parti sy'n mynychu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol beidio â bod yn bresennol ar gyfer peth neu ran o unrhyw gyfarfod.

4.4 Gellir cynnal cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn unol â Rheolau 4.29 i 4.30 (Lleoliad) a 4.37 i 4.38 (Cyfarfodydd o Bell).

4.5 Rhaid cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus a bydd y trefniadau i gyhoeddi a chael gweld dogfennau'r un fath ag ar gyfer cyfarfodydd y CJC yn unol ag Adran 4.

## 5. Cworwm

5.1 Y cworwm angenrheidiol ar gyfer cyfarfod yr Is-Bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol fydd o leiaf ddau aelod etholedig o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

## 6. Pleidleisio

6.1 Yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol, bydd gan bob aelod etholedig sy'n bresennol un bleidlais. Bydd penderfyniadau yng nghyfarfod yr Is-Bwyllgor SDP yn cael eu gwneud trwy bleidlais y mwyafrif o gyfarfod a chworum.

## 7. Cofnodion

7.1 Rhaid cynhyrchu a chofnodi cofnodion trafodaethau pob cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol. Rhaid i'r cofnodion gael eu hystyried a'u cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor.

## 8. Gweithdrefnau Cyfarfodydd

8.1 Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

8.2 Gyda chytundeb y Cadeirydd, gellir ail-drefnu neu ganslo cyfarfodydd neu drefnu cyfarfodydd ychwanegol.

8.3 Bydd pob cyfarfod yn cael ei gofnodi drwy gynhyrchu nodiadau a fydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein ar ôl y cyfarfod, ac eithrio unrhyw wybodaeth a eithriwyd neu wybodaeth gyfrinachol. Bydd nodiadau cyfarfodydd fel arfer yn fyr ac yn cynnwys crynodeb o'r drafodaeth, pwyntiau gweithredu ac argymhellion.

8.4 Nid yw'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn gorff gwneud penderfyniadau a dylai'r Cadeirydd geisio hwyluso cytundeb drwy gonsensws ar y materion a drafodir. Os na ellir cyrraedd consensws, rhaid i'r Cadeirydd gyflwyno safbwyntiau gwahanol y pwyllgor i'r CJC.